# Strategaeth Iaith Ceredigion

# 2018-23

**Wedi ei pharatoi yn unol â**
**Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 dan ofynion**
**Safonau'r Iaith Gymraeg**



Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Awdur a gwasanaeth: Carys Morgan
Dyddiad cymeradwywyd gan Fforwm Dyfodol Dwyieithog:
Dyddiad cymeradwywyd gan Cabinet:
Asesiad Effaith Integredig (Oes/Nac oes): Oes
Dyddiad cyhoeddi:

Mae fersiwn Cymraeg a Saesneg o’r ddogfen hon ar gael ar wefan y Cyngor sef:

www.ceredigion.gov.uk

Os oes angen copi caled o’r ddogfen hon arnoch, neu gopi ohoni mewn fformat arall ee print mawr, fersiwn sain, ffurf hygyrch ar gyfer darllenwyr sgrin ac ati, cysylltwch â

Swyddog Polisi Iaith Gymraeg a Chydraddoldebau
Gwasanaethau Democrataidd
Cyngor Sir Ceredigion
Canolfan Rheidol
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3UE

E-bost: clic@ceredigion.gov.uk

## Rhagair gan Arweinydd y Cyngor



Fel Arweinydd y Cyngor ac Eiriolwr Gweithredol dros y Gymraeg mae'n bleser gennyf gyflwyno Strategaeth Iaith Ceredigion 2018-23.

Er gwaethaf yr heriau economaidd a'r heriau ieithyddol, mae cefnogaeth egwyddorol Cyngor Sir Ceredigion i'r iaith Gymraeg yn gwbl gadarn. Mae'r Cyngor yn falch iawn o etifeddiaeth a threftadaeth ieithyddol a diwylliannol y sir, ac yn cymryd pob cyfle i'w diogelu a'u hybu. Mae hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn rhan o'i werthoedd craidd.

Mae Mesur Llywodraeth Lleol (Cymru) 2009 yn rhoi rhwymedigaeth ar y Cyngor Sir i gyhoeddi cynllun gwella, a chael trefniadau yn eu lle i sicrhau gwelliant ar draws yr amrywiaeth o'i swyddogaethau. Mae Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022, yn nodi mai gweledigaeth y Cyngor yw:

"*darparu gwasanaethau cyhoeddus dwyieithog cynaliadwy sy'n rhoi gwerth am arian er mwyn cynnal economi gryf, amgylchedd iach a hyrwyddo lles ein pobl a'n cymunedau.*"

Ein blaenoriaethau corfforaethol yw:

- Hybu'r Economi
- Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl
- Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd
- Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol

Mae Ceredigion yn parhau i fod yn un o gadarnleoedd yr iaith Gymraeg, Cymdogaethau Cymraeg a dwyieithog yw sail ei diwylliant a'i bywyd beunyddiol. Ond mae cymdogaethau yn newid, ac mae'r newid hwn yn cael dylanwad ar yr iaith a'r diwylliant. Bu i Gyfrifiad 2011 osod nifer o heriau o'r newydd i Geredigion. Ni allwn tanbrisio'r pwysau ieithyddol sy'n wynebu ieithoedd cenedlaethol lleiafrifol fel y Gymraeg ym myd mudol a chyfryngol yr unfed ganrif ar hugain. Mae ymateb i'r heriau hynny, lliniaru'r risgiau sy'n wynebu'r Gymraeg a sicrhau hyfywedd y gymuned iaith Gymraeg yn golygu cynllunio ieithyddol trwyadl ynghyd â gweithredu arwyddocaol ymhob agwedd o fywyd cymdeithasol ac economaidd y sir.

Wrth weithredu'r Strategaeth hon rydym yn anelu at wneud cyfraniad Ceredigion tuag at Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru, i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. Mae'r Strategaeth hon yn gyfle inni gydweithio ar draws y Sir i normaleiddio'r defnydd a wneir o'r Gymraeg, a'i dwyn i fewn i'r rhannau hynny o'r gymdeithas lle nad ydyw o bosib mor amlwg. Hyn er mwyn cynnal Ceredigion gwbl ddwyieithog, lle mae modd gweld a chlywed y Gymraeg bob dydd yn iaith gyfathrebu naturiol yn ein cymdogaethau.

Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn
Arweinydd, Cyngor Sir Ceredigion

# Cynnwys


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| **1.** | **Cyflwyniad** | **5** |
| **2.** | **Sefyllfa'r Gymraeg ac Agweddau Demograffig** | **6** |
| **3.** | **Deddfwriaeth a Chyd-destun Polisi** | **12** |
| **4.** | **Yr Heriau A Chynllunio Ieithyddol** | **16** |
| **5.** | **Ein Gweledigaeth a'n Blaenoriaethau** | **17** |
| **6.** | **Gweithredu** | **31** |
| Atodiad 1 | Ystadegau iaith lleol | 32 |

# 1. Cyflwyniad

Mae Strategaeth Iaith Ceredigion wedi ei ddatblygu fel ymateb i un o ofynion Safonau'r Gymraeg, yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae Safon Hybu (145/146) yn gosod y dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ddatblygu Strategaeth Iaith, sy'n esbonio sut y byddwn ar y cyd gyda sefydliadau partner eraill yn mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnydd o'r Gymraeg yn ehangach o fewn yr ardal leol.

Yng Ngheredigion rydym yn croesawu'r ffaith ei bod yn ofynnol i'r Cyngor baratoi strategaeth o'r fath, gan ei fod yn gyfle i'r Cyngor adeiladu ar y gwaith blaengar sydd eisoes yn cael ei wneud ar gyfer y Gymraeg. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo yn llawn i'r egwyddor i hwyluso mwy o ddefnydd o'r Gymraeg, fel bod siaradwyr Cymraeg yn gallu defnyddio'u Cymraeg ymhob agwedd o'u bywydau. Mae'r Strategaeth hon yn adeiladu ar y gwaith a wnaed ar sail Strategaeth Iaith Ceredigion 2015-18, a baratowyd gan Grŵp Gweithredol Dyfodol Dwyieithog Bwrdd Gwasanaeth Lleol Ceredigion.

Mae'r strategaeth hon hefyd yn adlewyrchu ymrwymiadau ehangach y Cyngor yng nghyswllt y Gymraeg, mewn sawl maes megis: Gwasanaeth addysg (Cynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg Ceredigion 2017-2020), Gwasanaeth cynllunio a datblygu tir (Cynllun Datblygu Lleol 2007-2022), Y Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal (Fframwaith Strategol Olynol Mwy na Geiriau), ac yn ategu'r blaenoriaethau a nodir yn Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor (2017-2022) ac yng Nghynllun Llesiant Ceredigion (2018-2023). Bydd y Strategaeth hefyd yn cynnig syniadau ar gyfer cyfraniad Ceredigion tuag at Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050, sydd yn gosod y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050.

Mae Safon 145 yn nodi ei bod yn ofynnol gosod targed yn nhermau cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn y Cyfrifiad nesaf (y prif ddull o fesur nifer o siaradwyr Cymraeg). Wrth ddadansoddi adroddiadau'r Cyfrifiad ac edrych ar ystadegau a symudoledd poblogaeth Ceredigion, y tebyg yw y bydd cyfanswm poblogaeth y Sir erbyn 2021 yn 76,800; cynnydd o ryw 3,000 o bobl yn unig. Ein gweledigaeth fel cyfraniad Ceredigion tuag at darged Llywodraeth Cymru, yw gweld cynnydd yn y nifer sy'n siarad y Gymraeg yng Ngheredigion yn adroddiadau Cyfrifiad 2021, a bod y ganran yn codi i o leiaf 48.5% (sef 1,500 yn fwy o siaradwyr Cymraeg erbyn 2021). Bydd Ceredigion, yn wynebu llawer o heriau, gan gynnwys heriau economaidd ac ieithyddol yn ystod y blynyddoedd nesaf; ond drwy gydweithio a chymryd camau ymarferol, rydym yn ystyried y targed yn un ymarferol.

Bydd gweithrediad a llwyddiant y Strategaeth yn ddibynnol ar gydweithio rhwng nifer o gyrff cyhoeddus a sefydliadau cymunedol, er mwyn ceisio cynnal ac ehangu'r defnydd o'r iaith ym mhob agwedd ar fywyd y sir. I gyflawni hyn bydd y Cyngor yn adolygu ac ehangu aelodaeth cyfredol Grŵp Dyfodol Dwyieithog Ceredigion, hyn er mwyn tynnu ynghyd yr holl bartneriaid perthnasol er mwyn medru dylanwadu a monitro gweithrediad y Strategaeth, a hynny o fewn cwmpas ein dylanwad.

Lluniwyd y strategaeth hon o ganlyniad i weithdai a gynhaliwyd gydag aelodau'r Grŵp Dyfodol Dwyieithog a chydag aelodau Fforwm Iaith Ceredigion ym mis Mawrth 2018. At hynny, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 3 Gorffennaf a 13 Awst 2018, gan gynnwys ymgynghori gyda'g aelodau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion.

# 2. Sefyllfa'r Gymraeg ac agweddau demograffig

## 2.1 Cymru

Canlyniadau'r Cyfrifiad bob deng mlynedd yw'r prif arf ar gyfer mesur nifer o siaradwyr Cymraeg. Ar yr olwg gyntaf roedd Cyfrifiad 2011 yn achos cryn siom i garedigion y Gymraeg. Ar ôl degawd o gynllunio ieithyddol a gweithredu helaeth mewn sawl maes syrthiodd y nifer a'r ganran a adroddwyd eu bod yn gallu siarad Cymraeg, mewn cymhariaeth â Chyfrifiad 2001.

Syrthiodd y nifer o unigolion dros 3 oed a adroddwyd eu bod yn gallu siarad Cymraeg o tua 582,000 yn 2001 i 562,000 yn 2011 – gostyngiad o tua 20,000. Syrthiodd canran y boblogaeth a adroddwyd eu bod yn gallu siarad Cymraeg hefyd o 20.5% i 19%.

Y tu ôl i'r penawdau bras hynny, fodd bynnag, gwelwyd y gellir priodoli bron i 19,000 o'r gostyngiad hynny i'r ffaith fod yna nifer sylweddol yn llai o boblogaeth yn y grŵp oedran 5-15 oed yn 2011 o'i gymharu â 2001. O'r herwydd, o ran canran, dim ond gostyngiad o 0.5 pwynt canran o siaradwyr Cymraeg a gafwyd yn y grŵp oedran hynny mewn gwirionedd. Gyfochrog â hynny, gwelwyd cynnydd yn y nifer o siaradwyr Cymraeg a nodwyd ar gyfer y categorïau oedran eraill dan 45 oed. Serch hynny, cafodd y cynnydd hynny ei wrthbwyso gan ostyngiad yn y nifer o siaradwyr Cymraeg yn y grwpiau oedran dros 45 oed.

Tabl 1: nifer a chanran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl oedran, 2001-2011.[1]

| Grŵp oedran | 2011 | | 2001 | | Gwahaniaeth | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Pwynt Canran |
| 3-4 oed | 16,495 | 23.3% | 13,239 | 18.8% | 3,256 | 4.6 |
| 5-15 | 152,255 | 40.3% | 171,168 | 40.8% | -18,913 | -0.5 |
| 16-19 | 43,951 | 27.0% | 40,548 | 27.6% | 3,103 | -0.7 |
| 20-44 | 150,742 | 15.6% | 146,227 | 15.5% | 4,515 | 0.0 |
| 45-64 | 107,941 | 13.3% | 112,742 | 15.6% | -4,801 | -2.3 |
| 65-74 | 45,112 | 15.0% | 47,692 | 18.1% | -2580 | -3.0 |
| 75+ | 45,820 | 17.5% | 50,752 | 21.1% | -4,932 | -3.6 |
| | | | | | | |
| **Pob oedran** | **562,016** | **19.0%** | **582,368** | **20.8%** | **-20,352** | **-1.7** |

Darlun cymysg yw'r darlun cenedlaethol, felly. Ac er y gwelwyd gostyngiad cyffredinol yn y ganran a'r nifer a adroddwyd eu bod yn gallu siarad Cymraeg ledled y wlad, roedd y gostyngiad mwyaf yn y siroedd hynny yn y gogledd a'r gorllewin sydd â'r nifer a'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg.

Tabl 2: nifer a chanran y bobl dros 3 oed sy'n gallu siarad Cymraeg 2001-2011[2]

| Awdurdod unedol | 2011 | | 2001 | | Gwahaniaeth | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Pwynt Canran |
| Ynys Môn | 35,568 | 57.2% | 38,893 | 60.1% | -325 | -2.9% |
| Gwynedd | 77,000 | 65.4% | 77,846 | 69.0% | -846 | -3.6% |
| Conwy | 30,600 | 27.4% | 31,298 | 29.4% | -698 | -2.0% |
| Ceredigion | 34,964 | 47.3% | 37,918 | 52.0% | -2,954 | -4.7% |
| Sir Gaerfyrddin | 78,048 | 43.9% | 84,196 | 50.3% | -6,148 | -6.4% |

[1] Cyfrifiad 2011: y canlyniadau cyntaf am yr iaith Gymraeg, Llywodraeth Cymru, 2012. Swyddfa Ystadegau Gwladol

[2] Ibid.

Er hynny, mae'n werth nodi y gwelwyd cynnydd bychan hefyd mewn rhai ardaloedd yng Ngwynedd, Môn a Chonwy - yn ogystal â siroedd eraill yn y de a'r dwyrain.

Un ffactor allweddol yn y newidiadau demograffig dros y ddegawd rhwng 2001 a 2011 oedd symudoledd poblogaeth. Cynyddodd poblogaeth Cymru o 153,000 yn ystod y cyfnod rhwng y ddau Gyfrifiad diwethaf, gyda 90% o hynny yn deillio o fewnfudo net. Cynyddodd y ganran o boblogaeth Cymru a anwyd tu allan i'r wlad o 25% yn 2001 i 27% yn 2011. Ar ochr arall y geiniog, mae 18.5% o'r bobl a anwyd yng Nghymru bellach yn byw yn Lloegr - 507,000 ohonyn nhw yn 2011. Gellid, felly, amcan fod rhwng 75,000-100,000 ohonyn nhw yn debygol o fod yn gallu siarad Cymraeg.

Sgil yw iaith ac fel unrhyw sgil mae gan sgiliau iaith agweddau gwahanol ac ystod o allu yn yr agweddau hynny. Un nodwedd arall o'r gwahaniaethau a welwyd rhwng 2001 a 2011 oedd y newid yn y canrannau a nodwyd yng nghyswllt sgiliau yn y Gymraeg. Yn syml, gwelwyd y ganran a nodwyd eu bod yn medru siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg yn gostwng o 16.3% yn 2001 i 14.6% yn 2011. Ar yr un pryd, cododd y ganran a nodwyd eu bod yn deall Cymraeg llafar yn unig o 4.9% yn 2001 i 5.3% yn 2011. Mae'n anodd dadansoddi beth yn union sydd y tu ôl i'r tueddiadau hynny ond mae'r duedd hon wedi tynnu sylw cynllunwyr iaith at bwysigrwydd cynnal a chynyddu rhuglder a hyder unigolion yn eu sgiliau iaith.

## 2.2 Ceredigion: gorolwg

I raddau helaeth mae'r sefyllfa ieithyddol yng Ngheredigion yn adlewyrchu'r tueddiadau cenedlaethol. Bu dirywiad parhaus yn nifer a chryfder cymunedau sy'n defnyddio'r iaith Gymraeg fel eu prif fodd o gyfathrebu:

Canran siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion yn ôl adroddiadau'r Cyfrifiad yn

| | |
|---|---|
| **2011** | 47.3% |
| **2001** | 52.0% |
| **1991** | 58.1% |

Gwelwyd felly, erbyn Cyfrifiad 2011, roedd canran y siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigon am y tro cyntaf yn hanes wedi cwympo o dan yr hanner. (47.3%).
Yng Nghyfrifiad 2011 adroddwyd bod 34,964 (47.3%) o drigolion Ceredigion dros 3 oed yn gallu siarad Cymraeg. Roedd hyn yn llai na'r nifer a'r ganran a adroddwyd yng Nghyfrifiad 2001, sef 37,918 (52%) – gostyngiad o 2,954 person a 4.7 pwynt canran. Digwyddodd y newid yma mewn cyfnod lle gwelwyd poblogaeth gyfatebol Ceredigion yn cynyddu o 72,884 yn 2001 i 73,847 yn 2011 – cynnydd o 1.3%.

Tabl 3: Nifer a chanran yn gallu siarad Cymraeg yng Ngheredigion yn ôl grŵp oedran 2011[3]

| | **3-15 oed** | **16-64 oed** | **65+ oed** | **Pawb dros 3 oed** |
|---|---|---|---|---|
| **Gallu siarad Cymraeg** | 7,175 (78.4%) | 20,503 (41.8%) | 7,286 (46.4%) | 34,964 (47.3%) |

Cynhaliwyd Cyfrifiad 2011 adeg tymor colegau a phrifysgolion. Mae'r boblogaeth myfyrwyr yn un arwyddocaol yng Ngheredigion. Fodd bynnag, mae modd cyfrifo beth fyddai'r sefyllfa ieithyddol y tu allan i dymor coleg. Ar y sail hynny nodir bod 34,414 o siaradwyr Cymraeg dros 3 oed yn y sir – 50.2% o'r boblogaeth.[4]

---

[3] Cyfrifiad 2011, Tabl KS208WA. Swyddfa Ystadegau Gwladol
[4] Tabl OT206WA – Welsh Language Skill (out of term-time population), Swyddfa Ystadegau Gwladol.

### 2.2.1 Y sefyllfa yn lleol

Mae'r sefyllfa ieithyddol yn medru amrywio o ardal i ardal wrth i wahanol ffactorau cymdeithasol effeithio'n wahanol ar ardaloedd unigol. Yn gyffredinol, syrthio wnaeth y canrannau o bobl a adroddwyd eu bod yn medru siarad Cymraeg ar draws y sir. Serch hynny, o'r 40 ward yng Ngheredigion cofnodwyd bod 24 ohonyn nhw yn nodi bod dros hanner eu poblogaeth dros 3 oed yn gallu siarad Cymraeg.[5]

Tregaron (67%), Llandysul (64%) ac Aberaeron (60%) oedd y wardiau a gofnododd y canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg eto yn 2011, fel yn 2001. Ardal Aberystwyth oedd â'r canrannau isaf gyda rhyw chwarter i draean o drigolion wardiau Aberystwyth yn cael eu nodi yn siaradwyr Cymraeg, gan amlygu dylanwad y Brifysgol a sefydliadau eraill ar y dref honno. Tu allan i ardal Aberystwyth mae bron pob ward yn nodi canran o siaradwyr Cymraeg sy'n uwch na 45%.

Tu allan i Aberystwyth hefyd mae'r canrannau o unigolion sydd heb unrhyw sgiliau Cymraeg yn amlygu dylanwad mewnlifiad i'r ardaloedd hynny, e.e. Borth (48%), Aberporth (43%), Ceinewydd (44%), Llanbed (44%). Ar y llaw arall, yr ardaloedd lle mae sgiliau Cymraeg ar eu cryfaf o ran unigolion sy'n medru siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg yw Tregaron (56%), Llandysul (53%), Llanwenog (52%), Llanfihangel Ystrad (49%) ac ardal Ystwyth (49%).

Gwelir tablau sy'n darlunio'r agweddau o sgiliau iaith ar sail niferoedd a chanrannau ar gyfer pob ward ystadegol yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn.

### 2.2.2 Trosglwyddo iaith

Mae sicrhau fod siaradwyr Cymraeg yn trosglwyddo iaith o un genhedlaeth i'r llall ynghyd â sicrhau cyfleoedd i gymdeithasoli plant i ddefnyddio'r iaith yn hanfodol i barhad y Gymraeg, fel pob iaith arall. Mae gweithgareddau'r Mudiad Meithrin a darpariaeth addysg Gymraeg Cyfnod Sylfaen ysgolion y sir hefyd yn allweddol yma.

Mae cyfrifo cyfraddau trosglwyddo iaith yn broblematig heb ymchwil manwl penodol. Fodd bynnag, mae cymharu'r hyn a nodwyd am allu ieithyddol plant 3-4 oed yn y Cyfrifiad yn rhoi golwg bras i ni ar y sefyllfa. Yn gadarnhaol, roedd mwy o blant 3-4 oed yng Ngheredigion yn siarad Cymraeg yn 2011 nag yn 2001. O edrych ar y teuluoedd oedd yn cynnwys plant 3-4 oed ar draws y sir yn 2011 gwelwyd fod 59% o'r teuluoedd hynny yn trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant. Roedd hynny yn gynnydd o 3 pwynt canran ers 2001 (56%).

Yn unol â'r duedd genedlaethol, gwelwyd cynnydd yn y gyfradd trosglwyddo ymysg teuluoedd cyplau cymysg eu hiaith (h.y. Cymraeg/Saesneg) a theuluoedd lle nad oedd unrhyw oedolyn yn gallu siarad Cymraeg. Fodd bynnag, tra bod cyfraddau trosglwyddo'r Gymraeg ymysg teuluoedd cyplau Cymraeg a rhieni sengl Cymraeg wedi aros yr un a'r raddfa genedlaethol ar 82% a 60% fel ei gilydd, gwelwyd gostyngiad yn y gyfradd drosglwyddo ymhlith y math yna o deuluoedd yng Ngheredigion – yn enwedig yng ngogledd y sir. Mae'r cyfraddau ychydig yn uwch na'r gyfradd genedlaethol ond yn is na fu'r cyfraddau yng Ngheredigion yn 2001 – fel a welir yn y tabl isod.

[5] Cyfrifiad 2011, Tabl KS207WA, Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Tabl 4: Plant 3-4 oed yng Ngheredigion yn gallu siarad Cymraeg fesul math o deulu 2001 a 2011. [6]

| | | Teulu C/C | Teulu C/- | Teulu C/S | Teulu heb oedolyn Cymraeg | Pob siaradwr Cymraeg 3-4 oed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2011** | Cyfradd trosglwyddo | 83% | 63% | 59% | 34% | 59% |
| | Nifer o blant | 380 | 53 | 189 | 140 | 799 |
| **2001** | Cyfradd trosglwyddo | 88% | 66% | 53% | 28% | 56% |
| | Nifer o blant | 348 | 73 | 195 | 141 | 757 |

Un esboniad posibl am y cwymp hynny yw bod mwy o'r genhedlaeth gyfredol o rieni yn siaradwyr Cymraeg ail iaith o gartrefi Saesneg eu hiaith sy'n parhau i ddefnyddio Saesneg fel iaith eu teulu. Fodd bynnag, byddai angen ymchwil manwl pellach i ganfod atebion cadarn i'r duedd yma. Serch hynny, ymddengys bod cynnal y Gymraeg fel cyfrwng addysg yn y Cyfnod Sylfaen o fewn ysgolion y sir yn parhau'n allweddol i gynnal lefelau cymdeithasoli iaith ymysg plant bach.

### 2.2.3 Pobl ifanc

Os yw'r gyfundrefn addysg yn allweddol yng nghyswllt cyflwyno'r Gymraeg i blant bach mae hefyd yr un mor allweddol yng nghyswllt cynnal a datblygu'r sgiliau hynny ymysg plant hŷn a phobl ifanc.

Mae cyfundrefn addysg y sir wedi derbyn canmoliaeth o sawl cyfeiriad yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn sicr, mae Polisi Iaith Ysgolion Ceredigion wedi cael effaith gadarnhaol ar lefelau sgiliau iaith disgyblion y sir – fel mae'r ystadegau ar gyfer y tri Chyfrifiad diwethaf yn dangos:

Tabl 5: Canran plant a phobl ifanc 5-14 oed sy'n gallu siarad Cymraeg yng Ngheredigion 1991-2011

| | |
|---|---|
| **2011** | 82% |
| **2001** | 79% |
| **1991** | 78% |

Erys cynyddu a chadarnhau dilyniant mewn addysg Gymraeg, sicrhau ethos cadarn o blaid y Gymraeg ym mhob ysgol yn y sir a chynnal cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio eu sgiliau yn gymdeithasol y tu allan i'r dosbarth – ar y buarth, yn eu hamser hamdden ac mewn cyswllt â byd gwaith – yn her barhaus. Dangosodd astudiaeth a wnaed gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn 2006 ar rwydweithiau cymdeithasol a defnydd iaith pobl ifanc (gan gynnwys Aberystwyth, Llanbed a Llandysul/Aberteifi) bwysigrwydd sicrhau cyfleoedd cymdeithasol er mwyn cadarnhau'r sgiliau Cymraeg mae pobl ifanc yn eu caffael yn yr ysgol.[7]

[6] Ffynhonnell data: 2011 tabl DC2601; 2001 tabl S143, Swyddfa Ystadegau Gwladol.
[7] Rhwydweithiau Cymdeithasol a defnydd Iaith Pobl Ifanc, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Caerdydd: 2006.

### 2.2.4 Ystod sgiliau

Fel nodwyd eisoes, nid mater du a gwyn yw sgiliau iaith. Canfyddiad unigolion o'u sgiliau nhw eu hunain a'u teulu yw sail ystadegau iaith y Cyfrifiad a gwyddys y gall y canfyddiadau hynny fod yn oddrychol ac yn amrywiol. Er hynny, mae Cyfrifiad 2011 yn taflu rhywfaint o olau ar yr ystod o sgiliau a geir yn y sir.

Tabl 6: ystod sgiliau Cymraeg yng Ngheredigion 2001-2011[8]

| | Siarad Cymraeg | Siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg | Deall Cymraeg yn unig | Dim sgiliau Cymraeg |
|---|---|---|---|---|
| 2011 | 47% | 39% | 8% | 42% |
| 2001 | 52% | 44% | 7% | 39% |

Wrth ddadansoddi'r tuedd a fu at wanhau gafael trigolion y sir ar eu sgiliau Cymraeg rhaid dwyn i gof fod y canrannau i'w darllen yng nghyswllt y newid poblogaeth helaeth sydd wedi digwydd o fewn y sir dros y ddegawd diwethaf. Fodd bynnag, maent yn amlygu'r ffaith bod angen i strategaethau iaith yn y sir dalu sylw at gynnal ymlyniad ieithyddol trigolion y sir at y Gymraeg ynghyd â'u rhuglder a'u hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg. Mae gan hyn arwyddocâd yng nghyswllt darparu gwasanaethau, defnyddio Cymraeg at ddibenion gwaith a defnyddio'r Gymraeg yng nghyswllt cyfryngau torfol a chymdeithasol.

### 2.2.5 Symudoledd poblogaeth

Bu symudoledd poblogaeth yn ffactor amlwg yn nemograffeg Ceredigion ers rhai degawdau. Roedd cyfran helaeth o boblogaeth y sir yn 2011 wedi eu geni y tu allan i Gymru.

Tabl 7: lleoliad genedigaethau poblogaeth Ceredigion 2001 – 2011[9]

| | Ganwyd yng Nghymru | Ganwyd yn Lloegr | Ganwyd mewn mannau eraill | Pawb |
|---|---|---|---|---|
| 2011 | 42,005 | 28,385 | 5,532 | 75,922 |
| | 55.3% | 37.4% | 7.3% | |
| 2001 | 43,903 | 27,299 | 3,739 | 74,941 |
| | 58.6% | 36.4% | 4.5% | |

Yn 2011 gwelwyd bod y ganran o drigolion y sir a anwyd yng Nghymru wedi gostwng ymhellach i 55.3% - neu 57.9% pan nad oedd yn dymor coleg[10]. Yn 2011 roedd 74.6% o boblogaeth Ceredigion a anwyd yng Nghymru (gan gynnwys myfyrwyr) yn gallu siarad Cymraeg o'i gymharu a 47.3% o'r boblogaeth yn gyfan adeg tymor coleg.[11]

Tu allan i drefi prifysgol Aberystwyth a Llanbed mae'r twf yn y nifer o drigolion a anwyd y tu allan i Gymru yn fwyaf arwyddocaol yn y grwpiau oedran hŷn. Felly hefyd, yn gyfatebol, y cwymp yn y canrannau o siaradwyr Cymraeg. Yn gyffredinol, iaith y genhedlaeth dan 50 oed yw'r Gymraeg yng Ngheredigion bellach – nid iaith y to hŷn.

Mae'r proffil ieithyddol ar sail grwpiau oedran ar gyfer cymuned Llandysiliogogo yn nodweddiadol o'r rhan fwyaf o gymunedau gwledig y sir.

[8] Cyfrifiad 2011: tabl KS208WA, Swyddfa Ystadegau Gwladol
[9] Ffynhonell data: 2011 tabl KS204EW; 2001 tabl KS05, Swyddfa Ystadegau Gwladol
[10] Tabl OT203EW – Country of Birth (out of term-time population),Swyddfa Ystadegau Gwladol
[11] Cyfrifiad 2011: Data iaith Gymraeg – trydydd cyhoeddiad, 16 Mai 2013.

Tabl 8: canrannau siaradwyr Cymraeg yn ôl grŵp oedran: cymuned Llandysiliogogo 2011.

| Grŵp oedran | % |
|---|---|
| 3-15 oed | 89.0% |
| 16- 24 oed | 78.4% |
| 25-34 oed | 66.7% |
| 35-49 oed | 50.5% |
| 50-64 oed | 38.5% |
| 65+ oed | 37.5% |

Gellir gweld proffiliau iaith fesul cymuned leol – a nifer fawr o wybodaeth ddefnyddiol arall – ar wefan Statiaith[12].

### 2.2.6 Hunaniaeth genedlaethol

O ran hunaniaeth genedlaethol, yn 2011 roedd 46.6% o boblogaeth Ceredigion yn disgrifio eu hunain fel Cymry yn unig, gyda 6% arall yn disgrifio eu hunain yn Gymry ynghyd â disgrifiad arall (53% o'r boblogaeth yn grynswth). Roedd 18.4% o'r boblogaeth yn disgrifio eu hunain yn Saeson yn unig, gyda 5% arall yn disgrifio eu hunain yn Saeson ynghyd â disgrifiad arall (23.4% o'r boblogaeth yn grynswth). Roedd 19.9% yn disgrifio eu hunain yn Brydeinig yn unig.[13] Ymddengys, felly, bod hunaniaethau cenedlaethol trigolion y sir yn gryfach na'u hunaniaeth fel dinesydd o'r wladwriaeth Brydeinig.

Am ragor o wybodaeth ynghylch agweddau demograffig gellir edrych ar ddogfen *Proffil Iaith Ceredigion*, sydd ar gael i'w lawr lwyddo oddi ar wefan corfforaethol y Cyngor.




[12] http://statiaith.com/cymraeg/demograffig/cyfrifiad/2011/LC2106/siart_LC2106Cymuned.html
[13] Cyfrifiad 2011: tabl KS202EW, Swyddfa Ystadegau Gwladol

## 3. Deddfwriaeth a Chyd-destun Polisi

Mae'r Strategaeth hon i'w gweithredu o fewn cyd-destun Mesur y Gymraeg 2011 ynghyd â gofynion gweithredu Safonau'r Gymraeg. Wrth weithredu'r strategaeth bydd Fforwm Dyfodol Dwyieithog Ceredigion yn ymwybodol o flaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru a chyrff cenedlaethol eraill yng nghyswllt y Gymraeg yn genedlaethol ac yn sirol, yn ogystal â strategaethau thematig mae Cyngor Sir Ceredigion a'r cyrff cyhoeddus eraill yn cyfrannu tuag at eu gweithredu o fewn y Sir.

**Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**

Cyhoeddwyd fframwaith ddeddfwriaethol newydd ar gyfer y Gymraeg ar ffurf Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a oedd yn adeiladu ar ofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Prif ganlyniadau'r Mesur hwnnw oedd:

- sefydlu statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru
- sefydlu swydd Comisiynydd y Gymraeg
- Sefydlu trefn gosod Safonau'r Gymraeg ar sefydliadau
- Sefydlu hawliau i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg

Mae'r Mesur yn seiliedig ar yr egwyddor a ganlyn:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- Dylai pobl yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Yn unol â'r Mesur hwn hefyd, sefydlwyd swydd Comisiynydd y Gymraeg, sydd a'r dyletswydd i osod Safonau Iaith ar sefydliadau. Mae gan y Comisiynydd hefyd y grym i archwilio unrhyw gorff cyhoeddus am beidio â chydymffurfio gyda'r safonau. Cyflwynwyd y Safonau ar Gyngor Sir Ceredigion ar 30 Mawrth 2016, yn dilyn cyfnod o ymgynghori. Bydd sefydliadau cyhoeddus eraill sy'n aelodau o Fforwm Dyfodol Dwyieithog yn dod o dan drefn Safonau'r Gymraeg maes o law, hyn yn unol â chylch gorchwyl Comisiynydd y Gymraeg.

**Pwrpas y Safonau'r Gymraeg yw:**

- Gwella'r gwasanaeth Cymraeg i siaradwyr Cymraeg
- Cynyddu'r defnydd a wneir o wasanaethau Cymraeg
- Gosod y disgwyliadau o ran y gofynion
- Sicrhau cysondeb ar draws yr un cyrff yn yr un sectorau

Mae Safonau Hybu (145/46) , sydd wedi'u gosod gan Gomisiynydd y Gymraeg, yn gosod dyletswydd penodol ar y Cyngor Sir i ddatblygu a chyhoeddi y Strategaeth hon.


**Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru**
**Cymraeg 2050 miliwn o siaradwyr Cymraeg.**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Strategaeth y Gymraeg, ar gyfer hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd bob dydd. Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw gweld yr iaith Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru. I gyflawni hynny, nod y strategaeth yw gweld cynnydd yn y nifer y bobl sy'n siarad a defnyddio'r iaith.

Yn ei ragymadrodd noda'r Gwir Anrh. Carwyn Jones AC,  Prif Weinidog Cymru:

*"Mae'r Gymraeg yn un o drysorau Cymru.  Mae'n rhan o'r hyn sy'n ein diffinio fel pobl ac fel cenedl.  Ein huchelgais ni fel Llywodraeth Cymru yw gweld miliwn o bobl yn gallu mwynhau siarad a defnyddio'r Gymraeg erbyn 2050.  Does dim dwywaith fod hyn yn uchelgais heriol, ond rydym yn credu ei bod yn her  werth chweil a bod angen i ni osod  uchelgais o'r fath os ydym am sicrhau hyfywedd yr iaith ar gyfer cenedlaethol i ddod"*

Er mwyn gwireddu'r weledigaeth o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae Strategaeth Cymraeg 2050 yn nodi'r tair thema strategol fel a ganlyn:




**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhestru saith o nodau ar gyfer llesiant cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru.  Mae'r ddeddf yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor Sir i osod a chyhoeddi Amcanion Llesiant sy'n ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol, gan greu'r Gymru rydym ni am ei chael nawr ar yn y dyfodol.  Un o'r nodau hynny yw sicrhau 'Cymru a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.'

Golyga'r thema hynny, creu:

| | |
|---|---|
| **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg  yn ffynnu** | Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden |

Mae Strategaeth Iaith Ceredigion yn adnabod cyfleoedd i gydgordio a Chynllun Llesiant Ceredigion. Yn dilyn cyfnod o ymgynghori gyda thrigolion Ceredigion, mae Cynllun Llesiant Ceredigion wedi ei ddatblygu a'i gyhoeddi. Mae'r iaith Gymraeg yn rhan o werthoedd y cynllun hwn:

"*Rydym wedi ymrwymo i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd. Yn ogystal, rydym yn cydnabod yr angen i weithio'n galed er mwyn hyrwyddo ac annog y defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd ar weithgarwch economaidd a chymunedol y Sir."*

Er mwyn gweithredu'r cynllun mae 6 grŵp prosiect wedi'i sefydlu gyda'r nod o fynd i'r afael gyda'r pynciau canlynol:

- Menter ac Arloesedd;
- Deall ein Cymunedau:
- Newid Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol;
- Cyd-leoli ac Integreiddio Gwasanaethau Rheng Flaen;
- Hyfforddiant Cydnerthedd,
- Atebion Cymdeithasol a Gwyrdd ar gyfer Iechyd

Mae gofyniad i gynnwys y Gymraeg yn rhan o bob prosiect, ac i adrodd ar hynny. Bydd gan Fforwm Dyfodol Dwyieithog rôl i adolygu bod hyn yn digwydd, ac i weithredu fel cyfaill beirniadol gan ddwyn gwerth ychwanegol i'r cynllunio, pan yn briodol i wneud hynny.

**Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CySGA)**

Mae'r *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru (2010)* yn ddogfen gwbl greiddiol i barhad a datblygiad y Gymraeg i'r dyfodol. Mae gweledigaeth y strategaeth yn un eang ac yn cydnabod rôl y gyfundrefn addysg i ddarparu sgiliau a gwerthoedd ar gyfer eu defnyddio yn y gymdeithas ehangach:

*"[Ein gweledigaeth yw] cael system addysg a hyfforddiant sy'n ymateb mewn ffordd wedi'i chynllunio i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg, sy'n cyrraedd ein cymunedau amrywiol ac yn eu hadlewyrchu ac sy'n sicrhau cynnydd yn nifer y bobl o bob oedran a chefndir sy'n rhugl yn y Gymraeg ac sy'n gallu defnyddio'r iaith gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle".*

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi derbyn cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ar ei Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020, er mwyn amlinellu sut y bydd y Sir yn cyflawni nodau a thargedau Llywodraeth Cymru ac yn cynllunio'n well ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg y sir.

*"Mae Cyngor Sir Ceredigion yn glir yn ei nod a'i egwyddor o ddatblygu medrau disgyblion er mwyn iddynt ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn rhugl a hyderus. Bydd hyn yn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni, gan feithrin balchder yn ieithoedd, treftadaeth a diwylliant Ceredigion a Chymru".*

Mae gan y Strategaeth rôl gwbl allweddol yn ymdrechion y Cyngor i gynyddu nifer ein trigolion sy'n caffael y Gymraeg, ac fe fydd yn hanfodol fod Strategaeth Iaith Ceredigion yn atgyfnerthu ac yn cefnogi'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.


**Fframwaith Strategol Olynol Mwy na Geiriau**

Lluniwyd y Cynllun Strategol 'Mwy na Geiriau' yn 2012 gyda'r nod o gryfhau gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Diweddarwyd y strategaeth yn 2016 gyda Fframwaith Strategol Olynol ar gyfer Gwasanaeth Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol; a darparwyd teclynnau ar gyfer cynorthwyo staff i'w weithredu. Yn ganolog i'r strategaeth mae'r her o ddatblygu'r 'cynnig rhagweithiol', sef bod aelodau staff yn cynnig gwasanaeth Cymraeg i gleifion, yn hytrach na disgwyl i gleifion ofyn amdanynt.

*"Gofalu am bobl fel unigolion yw diben y gwasanaeth iechyd a gwasanaethau Cymdeithasol, gan sicrhau eu bod yn cael eu hasesu yn gywir a bod eu hanghenion gofal yn cael eu bodloni. Rhaid i hunaniaeth ddiwylliannol pobl a'u hanghenion ieithyddol fod wrth wraidd hyn oherwydd mae'n rhan hanfodol o ofal o ansawdd da a safonau proffesiynol uchel".*

Mae Gweithgor Mwy na Geiriau wedi ei sefydlu gan y Cyngor i fynd i'r afael â'r materion hyn, a darperir adroddiad ar gynnydd i sylw'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn flynyddol. At hyn mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn aelodau o Fforwm Dyfodol Dwyieithog, sy'n gyfle pellach i adolygu'r gofynion yma, ynghyd â rhannu arfer da.

Gwelir, felly, bod yna seiliau polisi eang wedi eu datblygu dros y blynyddoedd diwethaf ar lefel genedlaethol ac yn lleol er mwyn ceisio cynnal a hyrwyddo'r defnydd o Gymraeg - ym myd addysg, wrth dderbyn gwasanaethau, yn y gweithle ac yn y gymuned leol ymysg agweddau eraill. Mae'r cyfan yn gosod cyd-destun clir i Fforwm Dyfodol Dwyieithog weithredu o'i fewn yng nghyswllt Ceredigion.



# 4. Yr Heriau a Chynllunio Ieithyddol

Fel yr ydym wedi deall ym mhennod 2, yn ystod yr ugeinfed ganrif, bu dirywiad parhaus yn nifer a chryfder cymunedau ledled Cymru oedd yn defnyddio'r iaith Gymraeg fel eu prif fodd o gyfathrebu. Mae nifer o ffactorau a wnaeth gyfrannu at y dirywiad ieithyddol, ac mae'r rhain yn parhau i fod yn heriau sy'n berthnasol i sefyllfa'r Gymraeg yng Ngheredigion heddiw.

- Teuluoedd ddim yn trosglwyddo'r iaith
- Diffyg cyfleoedd cymdeithasol cyfrwng Cymraeg, hyn yn effeithio ar hyder unigolion yn eu gallu a'u sgiliau
- Allfudo pobl ifanc
- Diffyg cyfleoedd gwaith yn lleol
- Statws isel y Gymraeg fel iaith busnes
- Prinder argaeledd tai a thai fforddiadwy
- Symudoledd demograffeg

Dywed yr Ystadegydd Hywel M Jones yn y ddogfen 'Darlun Ystadegol o Sefyllfa'r Gymraeg,

"*Mae maint y boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg yn cael ei phennu gan ddemograffi a ffactorau cysylltiedig, a'r gyfundrefn addysg. Newidiadau demograffig sy'n pennu a yw'r boblogaeth yn cynyddu neu'n lleihau yn ei maint: faint sy'n cael eu geni, faint sy'n marw a faint sy'n symud i mewn ac allan o'r wlad. Mae'r nifer sy'n gallu siarad Cymraeg yn amrywio hefyd yn ôl y graddau y mae'r iaith yn cael ei throsglwyddo o un genhedlaeth i'r llall ar yr aelwyd neu o ganlyniad i'r gyfundrefn addysg. Rhaid cofio hefyd nad yw gallu unigolyn i siarad yr iaith yn ddigyfnewid. Gall unigolyn anghofio'r iaith i ryw raddau, neu wella ei feistrolaeth ohoni, trwy'i fywyd, nid yn unig pan fydd yn derbyn addysg fel plentyn. Nid ffactorau demograffig mo'r rhain ond cânt eu heffeithio gan ffactorau cysylltiedig fel dosbarthiad daearyddol siaradwyr y Gymraeg."*

Mae cynaliadwyedd yr iaith Gymraeg yn ddibynnol ar y broses o gryfhau cymunedau Cymraeg, a hynny trwy ddarparu digon o gyfleoedd addysgol, diwylliannol a chymdeithasol i ddefnyddio'r iaith o ddydd i ddydd. Ers y 1970au, gwnaed sawl ymgais i ddatblygu modelau ar gyfer cynaliadwyedd ieithoedd llai eu defnydd, ac un o'r rhai mwyaf dylanwadol oedd gwaith Joshua Fishman, *Reversing Language Shift* (1991), a oedd yn dangos bod cysylltiad cryf rhwng y ffactorau canlynol:

- Y gallu ieithyddol
- Y defnydd cymdeithasol a wneir o'r iaith
- Y deunydd a'r adnoddau sydd ar gael yn yr iaith, a'r galw amdanynt
- Y cymhelliant i ddysgu'r iaith a'i defnyddio

Drwy greu'r amgylchiadau cywir, bryd hynny y mae modd cynnal Ceredigion wirioneddol ddwyieithog. Felly, er mwyn sicrhau cynaliadwyedd y Gymraeg yng Ngheredigion mae angen cyfuniad o dair amod:

Y **gallu** i ddefnyddio'r iaith
Y **cyfleoedd** i'w defnyddio
Yr **awydd** i'w defnyddio

Nod y strategaeth hon fydd cynnal a hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob agwedd posib ar fywyd, ynghyd â dangos ffyrdd ar gyfer grymuso rhwydweithiau cymdeithasol cyfrwng Cymraeg mewn ardal ddwyieithog.

# 5. Ein Gweledigaeth a’n Blaenoriaethau

Yr hyn a garem yw Ceredigion wirioneddol ddwyieithog, dyma felly grynhoi'r canlyniadau a geisir yng Ngheredigion dros y blynyddoedd nesaf.

- statws cadarn i'r iaith Gymraeg gyda defnydd ohoni ym mhob agwedd ar fywyd cyhoeddus yn y sir,
- bri yn cael ei roi ar y Gymraeg ar draws y sir - yn addysgol, yn economaidd ac yn gymdeithasol,
- cyfleoedd niferus i bobl o bob oedran allu dysgu Cymraeg yn ogystal â threfniadau dibynadwy i'w cymhathu i rwydweithiau Cymraeg o'u dewis,
- cymunedau Cymreig hyfyw lle mae'r Gymraeg yn iaith gyfathrebu naturiol
- gwasanaethau cyhoeddus ar gael i bawb yn Gymraeg neu'n ddwyieithog heb rwystr,
- trigolion y sir, o bob cefndir, yn cael y cyfle i ddathlu'r Gymraeg, trwy gymryd rhan a chyfrannu at dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog Ceredigion.

Nid yw’r Strategaeth hon yn medru cynnwys yr holl bethau sydd angen ei wneud i sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu yng Ngheredigion; fodd bynnag, y nod yw bod mor realistig â phosib ac ymdrechu i fod yn rhagweithiol, yn unol â’r hyn sydd o fewn maes ein dylanwad fel Fforwm Dyfodol Dwyieithog Ceredigion. Er mwyn cyfrannu tuag at y weledigaeth mae Strategaeth Iaith Ceredigion wedi adnabod tri maes strategol. Mae’r nodau strategol hyn wedi’u llunio fel eu bod yn cydgordio gyda meysydd strategol Llywodraeth Cymru yn *Strategaeth y Gymraeg 2050 Miliwn o Siaradwyr Cymraeg*. Hyn er mwyn sicrhau rhaeadru strategol o’r lefel uchaf i’r lefel lleol. Yn rhan yma o’r Strategaeth, byddwn yn trafod y 3 nod strategol ac yn deall y cydberthynas rhyngddynt**.**

1. Cynyddu sgiliau iaith trigolion Ceredigion
2. Cynyddu’r cyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg yng Ngheredigon
3. Sicrhau amodau cymdeithasol sy’n galluogi’r Gymraeg i ffynnu yng Ngheredigion.

Yn atodol i’r Strategaeth hon, mae cynllun gweithredu manwl a fydd yn cael ei hadolygu’n flynyddol. Mae’r cynllun gweithredu yn cynnwys nifer o ddangosyddion perfformiad . Nodir detholiad o’r dangosyddion hyn yn y tablau ar y tudalennau sy’n dilyn.



## Nodau a Meysydd Blaenoriaeth:

**Nod strategol 1:**
Cynnal a chynyddu sgiliau iaith Gymraeg trigolion Ceredigion.

**Amcanion:**

1.1 Sicrhau bod cenedlaethau newydd yn caffael sgiliau Cymraeg sylfaenol ar y cyfle cyntaf.
1.2 Sicrhau bod myfyrwyr 3-19 oed yn caffael ac yn datblygu eu medrau Cymraeg yn ystod eu gyrfa addysgol.
1.3 Sicrhau cyfleoedd digonol i bobl ifanc ac oedolion gaffael a datblygu eu sgiliau Cymraeg: yn y gweithle ac yn y gymuned.

**Nod strategol 2:**
Cynnal a chynyddu'r cyfleodd i ddefnyddio'r Gymraeg yng Ngheredigion, mewn amrywiol gyd-destunau.

**Amcanion:**

2.1 Cynnal a chynyddu'r defnydd o Gymraeg ar lefel gymunedol.
2.2 Cynnal a chynyddu'r defnydd o Gymraeg wrth ddarparu a derbyn gwasanaethau cyhoeddus.
2.3 Cynnal a chynyddu'r defnydd o Gymraeg mewn gweithleoedd

**Nod strategol 3:**
Sicrhau amodau cymdeithasol sy'n galluogi'r Gymraeg i ffynnu yng Ngheredigion

**Amcanion:**

3.1 Cynnal statws a bri'r Gymraeg o fewn y gymdeithas, gan hyrwyddo ei gwerth a'r defnydd ohoni.
3.2 Sicrhau economi ffyniannus sy'n rhoi gwerth ar y Gymraeg ac ar sgiliau Cymraeg y gweithlu.
3.3 Sicrhau cymunedau cynaliadwy lle y defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu arferol.

## Nod Strategol 1:

# Cynnal a Chynyddu sgiliau iaith Gymraeg trigolion Ceredigion

| **Nod Strategol:** | **1. Cynnal a chynyddu sgiliau iaith Gymraeg trigolion Ceredigion.** |
|---|---|
| **Pam rydym wedi dewis y nod yma:** | Prif nod y strategaeth iaith genedlaethol 'Cymraeg 2050' yw sicrhau bod yna dros 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn y flwyddyn 2050. Dros y degawdau diwethaf dirywio wnaeth nifer y siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion – a hynny am resymau demograffig ac economaidd. Mae angen i'r sir wyrdroi hynny a chyfrannu'n gadarnhaol i'r strategaeth genedlaethol o ran cynyddu'r niferoedd o siaradwyr.<br><br>I ieithoedd llai a rhanbarthol, fel y Gymraeg, sy'n llwyddo i fyw a ffynnu yn wyneb pwysau cymdeithasol parhaus o du iaith llawer mwy grymus, mae'n allweddol ein bod yn cynnal cymdogaethau a rhwydweithiau hyfyw o siaradwyr sy'n defnyddio'r iaith lai honno fel cyfrwng cyfathrebu diofyn. I sicrhau hynny rhaid cynnal a chynyddu nifer a dwysedd daearyddol siaradwyr y Gymraeg.<br><br>At hynny, mae angen cydnabod mai sgil yw iaith a bod gan bawb y potensial i gynyddu eu sgiliau ieithyddol, waeth beth yw eu man cychwyn. Mae cynnwys pawb yn y dyhead i gynyddu sgiliau iaith trigolion y sir hefyd yn ffactor hollbwysig. |

| **Maes blaenoriaeth:** | **1.1 Sicrhau bod cenedlaethau newydd yn caffael sgiliau Cymraeg sylfaenol ar y cyfle cyntaf.** |
|---|---|
| **Sut byddwn yn gwneud hyn:** | ➢ Darparu gwybodaeth a chyngor uniongyrchol i rieni ynghylch gwerth y Gymraeg a'r gefnogaeth sydd ar gael.<br>➢ Hyrwyddo a chefnogi prosiect Cymraeg i Blant, (Mudiad Meithrin), er mwyn annog trosglwyddiad iaith o fewn yr aelwyd.<br>➢ Cefnogi Mudiad Meithrin i gynnal a chynyddu eu grwpiau Ti a Fi.<br>➢ Cefnogi Mudiad Meithrin i gynnal darpariaeth eang o Gylchoedd Meithrin yng Ngheredigion.<br>➢ Codi ymwybyddiaeth gofalwyr plant annibynnol ynghylch gwerth y Gymraeg, gan eu cefnogi i ddarparu gwasanaeth ieithyddol briodol |
| **Sut byddwn yn gwybod ein bod wedi llwyddo:** | • Gwybodaeth a chyngor priodol yn cael ei ddosbarthu i rieni a gwarcheidwaid ynghylch gwerth y Gymraeg mewn addysg<br>• Nifer o grwpiau cefnogol a gynhelir gan Cymraeg i Blant<br>• Nifer y Cylchoedd Ti a Fi yn y Sir, a nifer sy'n mynychu<br>• Nifer o gylchoedd Meithrin yn y Sir, a nifer sy'n mynychu<br>• Nifer a % o ofalwyr plant sy'n medru darparu gwasanaeth Cymraeg neu ddwyieithog |
| **Partneriaid** | Gwasanaeth Addysg CSC, Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, Dechrau'n Deg, Cered, Mudiad Meithrin, Uned Gofal Plant |

| Maes blaenoriaeth: | 1.2 Sicrhau bod myfyrwyr 3-19 oed yn caffael a datblygu eu medrau Cymraeg yn ystod eu gyrfa addysgol |
|---|---|
| Sut byddwn yn gwneud hyn: | ➢ Ehangu darpariaeth addysg Gymraeg mewn ysgolion drwy weithredu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Cymraeg<br>➢ Hyrwyddo mabwysiad Siarter Iaith Ysgolion Ceredigion: Ceri Siarad, edrych ar ddatblygu'r cynllun ar gyfer Ysgolion Uwchradd yn unol â lansiad y cynllun Uwchradd gan Lywodraeth Cymru.<br>➢ Cynyddu'r nifer a'r ganran o fyfyrwyr 16-19 oed sy'n derbyn cyfran o'u hyfforddiant galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg a/neu'n ddwyieithog.<br>➢ Codi ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o werth cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd y Gymraeg<br>➢ Annog ysgolion i gymryd mantais o'r cyfleoedd cyfrwng Cymraeg a gynigir drwy'r Gwasanaeth Ieuenctid. |
| Sut byddwn yn gwybod ein bod wedi llwyddo: | • % ysgolion cynradd Cymraeg sydd wedi ennill cydnabyddiaeth trwy weithredu Siarter Ceri Siarad (aur/efydd/arian)<br>• % sy'n derbyn addysg cynradd cyfrwng Cymraeg<br>• % sy'n derbyn addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg<br>• % o ddisgbylion 14-16 sy'n astudio ar gyfer cymhwyster drwy gyfrwng y Gymraeg<br>• Y nifer a'r ganran o fyfyrwyr 16-19 oed sy'n derbyn cyfran o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg a/neu'n ddwyieithog |
| Partneriaid | Gwasanaeth Addysg Ceredigion, Coleg Ceredigion, Hyfforddiant Ceredigion, Gwasanaeth Ieuenctid, Cered, C.Ff.I Ceredigion, Urdd Ceredigion, Theatr Felinfach |

| Maes blaenoriaeth: | 1.3 **Sicrhau cyfleoedd digonol i bobl ifanc ac oedolion gaffael a datblygu eu sgiliau Cymraeg: yn y gweithle ac yn y gymuned.** |
|---|---|
| **Sut byddwn yn gwneud hyn:** | ➢ CSC yn ogystal â chyrff eraill i ddarparu ystod o gyfleodd mewnol i staff gaffael, gwella a gloywi eu medrau Cymraeg, drwy fanteisio ar gynllun Cymraeg Gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol, a chodi ymwybyddiaeth o ddulliau amgenach o ddysgu a gwella iaith, gan gynnwys hyrwyddo technoleg newydd ee Say Something in Welsh.<br>➢ Hyrwyddo gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol er mwyn amlygu a rhannu gwybodaeth ynghylch cyfleoedd i staff y sector cyhoeddus gymryd mantais o'r cyfleoedd a gynigir dan y cynllun Cymraeg Gwaith, yn benodol y cwrs e-ddysgu am ddim.<br>➢ Cydweithio â Phrifysgol Aberystwyth i hyrwyddo ei ddarpariaeth Dysgu Cymraeg, gan gynnwys, Cyrsiau cymunedol prif ffrwd yn y gymuned, a'r rhaglen integredig Cymraeg i'r Teulu. |
| **Sut byddwn yn gwybod ein bod wedi llwyddo:** | • Nifer o staff Cyngor Sir Cymraeg yn mynychu cyrsiau iaith i ddysgu neu wella sgiliau iaith Gymraeg<br>• Nifer o staff o gyrff cyhoeddus yng Ngheredigion yn mynychu cyrsiau i ddysgu neu wella sgiliau iaith Gymraeg.<br>• Nifer o ddysgwyr sydd wedi cofrestru ar gyrsiau Dysgu Cymraeg yn y gymuned<br>• Nifer sydd wedi cofrestru ar gyrsiau Dysgu Cymraeg yn y gymuned lefel Uwch neu Hyfedredd |
| **Partneriaid:** | Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Tîm Addysg Gymunedol Dysgu Cymraeg, Cyngor Sir Ceredigion, Prifysgol Aberystwyth, Cyrff Cyhoeddus Fforwm Dyfodol Dwyieithog Ceredigion. |

## Nod Strategol 2:

## Cynnal a chynyddu’r cyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg mewn amrywiol gyd-destunau

| Nod Strategol | 2. Cynnal a chynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn amrywiol gyd-destunau. |
|---|---|
| **Pam rydym wedi dewis y nod yma:** | Nid oes diben i iaith os nad yw hi'n cael ei defnyddio. Mae angen i iaith feddu ar werth cymdeithasol ac economaidd a chael ei defnyddio o'r herwydd. Yn wir, heb iddi gael ei defnyddio – a hynny yn eang – nid yw yn bod mewn unrhyw ystyr real.<br><br>Yn ystod yr hanner canrif diwethaf gwelwyd chwyldro yn y modd y defnyddir y Gymraeg. Ar ôl canrifoedd o gael eu hallgau o beuoedd cymdeithasol cyhoeddus, ffurfiol a dylanwadol, ailgyflwynwyd y Gymraeg o dipyn i beth i bob agwedd ar fywyd cyhoeddus Cymru unwaith yn rhagor.<br><br>Mae'n rhan allweddol o unrhyw strategaeth iaith, ar ba bynnag lefel, i sicrhau'r defnydd helaethaf posibl o'r iaith – yn enwedig yng nghyswllt y sector cyhoeddus, byd addysg, byd gwaith, y cyfryngau, y cartref a bywyd cymunedol yn gyffredinol. Mae'r strategaeth hon yn ceisio hwyluso'r cyfleoedd ehangaf posibl i drigolion Ceredigion fedru defnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar eu bywydau o fewn y sir. |

| Maes blaenoriaeth: | 2.1 Cynnal a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar lefel gymunedol. |
|---|---|
| **Sut byddwn yn gwneud hyn:** | ➢ Gweithredu rhaglen waith benodol drwy gyfrwng Cered, Menter Iaith Cymraeg<br>➢ Cefnogi gweithgareddau plant ac ieuenctid cyfrwng Cymraeg drwy ddarparu cefnogaeth ariannol gan y CSC ac mewn da i Urdd Gobaith Cymraeg a C.Ff.I. Cymraeg, a rhannu gwybodaeth am weithgareddau yn lleol<br>➢ Hyrwyddo gweithgareddau diwylliannol a chelfyddydol cyfrwng Cymraeg trwy gyfrwng Theatr Felinfach Amgueddfa Ceredigion a Gwasanaeth Llyfrgell Cymraeg<br>➢ Cefnogi sefydliadau diwylliannol a chelfyddydol sy'n derbyn nawdd gan y Cyngor, i ddarparu rhaglen ddychmygus o gyfleoedd cyfrwng Cymraeg drwy eu rhaglenni gwaith<br>➢ CSC i barhau i roi cefnogaeth i Eisteddfodau Lleol a Sioeau Amaethyddol Ceredigion drwy'r Cynllun Grantiau Cymunedol, er mwyn codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo digwyddiadau traddodiadol ac ieithyddol o bwys o fewn y Sir.<br>➢ Cefnogi CAVO i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ymysg mudiadau gwirfoddol y sir |
| **Sut byddwn yn gwybod ein bod wedi llwyddo:** | • Nifer y gweithgareddau a hwylusir gan Cered i deuluoedd, plant a phobl ifanc.<br>• Nifer y gweithgareddau a hwylusir gan Cered drwy gyfrwng prosiect gweithredu'n lleol: i ganolbwyntio fel man cychwyn ar 6 prif dref y Sir, gan gynnwys tref Aberystwyth.<br>• Nifer o aelodau mudiad C.FF.I yng Ngheredigion<br>• Nifer o aelodau mudiad Urdd Gobaith Cymraeg yng Ngheredigion<br>• Nifer o brosiectau celfyddydol a chyfranogiad sy'n cael eu hwyluso gan Theatr Felinfach<br>• Nifer o fenthyciadau o lyfrau cyfrwng Cymraeg o'r llyfrgelloedd |

| | |
|---|---|
| **Partneriaid:** | Cered, CSC, Urdd Ceredigion, C.FF.I Ceredigion, Theatr Felinfach, Amgueddfa Ceredigion, Gwasanaeth Llyfrgell, Theatr Arad Goch, Theatr Mwldan, Canolfan y Celfyddydau, Llyfrgell Genedlaethol, Castell Aberteifi. |

| **Maes blaenoriaeth:** | **2.2 Cynnal a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg wrth ddarparu a derbyn gwasanaethau cyhoeddus** |
|---|---|
| **Sut byddwn yn gwneud hyn:** | ➢ CSC yn ogystal â chyrff eraill i weithredu'r Safonau Darparu Gwasanaeth mewn perthynas â'r Gymraeg, a rhannu arfer da gyda sefydliadau eraill sydd o fewn cylch gorchwyl Comisiynydd y Gymraeg pan yn briodol i wneud hynny.<br>➢ CSC ynghyd â chyrff eraill i gynyddu nifer y staff dwyieithog o fewn gweithleoedd, er mwyn cynyddu a gwella ansawdd gwasanaethau dwyieithog led led y Sir.<br>➢ Hyrwyddo'r cynllun *Iaith Gwaith* Comisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â gwasanaethau Clic Ceredigion, a chynnal ymgyrch i hyrwyddo bod croeso defnyddio'r Gymraeg wrth gysylltu gyda'r Gwasanaeth Cwsmer CSC.<br>➢ Hyrwyddo a chefnogi gweithrediad y strategaeth *Mwy na Geiriau* o fewn gwasanaethau'r Cyngor a'i bartneriaid, a datblygu cydnerthedd cymunedau.<br>➢ Datblygu dull o gyflwyno sesiynau cwrteisi iaith sylfaenol ar gyfer staff mewn cartrefi gofal**.**<br>➢ Hyrwyddo rhannu arfer da o fewn sefydliadau sector cyhoeddus y sir trwy gyfrwng fforwm Dyfodol Dwyieithog<br>➢ Cynnal a datblygu'r defnydd o Gymraeg yng ngwasanaethau Ceredigion Actif, gan gynnwys gwersi nofio a hyfforddiant chwaraeon, e.e. prosiect 5x60.<br>➢ Hwyluso'r cyfleuster chwilio am wasanaethau drwy wefan Dewis Cymru ynghylch y ddarpariaeth Cymraeg sydd ar gael yng Ngheredigion.<br>➢ Cydweithio â phartneriaid i gynnal statws y Gymraeg a'r cyfleoedd i'w defnyddio o fewn sefydliadau addysg uwch yn y sir. |
| **Sut byddwn yn gwybod ein bod wedi llwyddo:** | • Cyflwyniad Adroddiad Safonau Darparu Gwasanaeth Blynyddol derbyniol ar ran CSC<br>• % o staff y Cyngor sy'n medru siarad Cymraeg<br>• % staff sy'n medru siarad Cymraeg mewn partneriaid sector cyhoeddus eraill y Sir<br>• Cyflawni gofynion Fframwaith Strategol 'Mwy na Geiriau' a darparu adroddiad blynyddol derbyniol i Lywodraeth Cymru<br>• Nifer o weithgareddau Ceredigion Actif sydd wedi cael cydnabyddiaeth drwy'r cynllun Siarter Iaith Ceredigion.<br>• Nifer o sefydliadau sydd wedi cofrestru ar Dewis Cymru, ac sy'n medru darparu gwasanaeth Cymraeg<br>• Gweithgareddau i hybu 10 hawl myfyrwyr #mae gen ti hawl |
| **Partneriaid:** | CSC, Cyrff Cyhoeddus Fforwm Dyfodol Dwyieithog, Comisiynydd y Gymraeg, Clic Ceredigion, Gwasanaethau Cymdeithasol, Bwrdd Iechyd Hywel Dda, CAVO, Gwasanaeth Hamdden, Cymdeithasau Chwaraeon Ceredigion, Cered, Dewis Cymru, Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. |

| Maes blaenoriaeth: | 2.3 **Cynnal a chynyddu'r defnydd o Gymraeg mewn gweithleoedd** |
|---|---|
| **Sut byddwn yn gwneud hyn:** | ➢ CSC yn ogystal â chyrff eraill  i gyflawni Safonau Gweithredu mewn perthynas â'r Gymraeg, er mwyn cynyddu defnydd y Gymraeg mewn gweinyddiaeth fewnol; gan gynnwys: gwasanaethau AD cyfrwng Cymraeg, darparu cyfleodd  i godi hyder defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle ynghyd â datblygu a darparu adnoddau TGCh cyfrwng Cymraeg<br>➢ Cynyddu cydnabyddiaeth fod y Gymraeg yn sgil gwerthfawr yn y gweithle<br>➢ Rhannu arfer da ac annog sefydliadau partner eraill Dyfodol Dwyieithog i weithredu yn unol ag egwyddorion y Safonau Gweithredu<br>➢ Darparu cyngor ac arweiniad i gyflogwyr yn y sector breifat lleol, trwy gyfrwng prosiect Cymraeg mewn Busnes [Cered]. Tynnu sylw at adnoddau sydd ar gael ar gyfer dysgu Cymraeg ee Pecyn ar-lein am ddim; Say Something in Welsh, Duolingo |
| **Sut byddwn yn gwybod ein bod wedi llwyddo:** | • Cyflwyniad Adroddiad Safonau Gweithredu Blynyddol derbyniol ar ran CSC<br>• Nifer staff CSC sy'n medru'r Gymraeg yn unol â Fframwaith Sgiliau Iaith ALTE<br>• Nifer staff CSC ar gyrsiau iaith amrywiol<br>• Nifer sefydliadau sy'n gweithredu Safonau'r Gymraeg, neu Bolisi Iaith Gymraeg.<br>• Nifer y busnesau sy'n rhan o gynllun Siarter Iaith Ceredigion |
| **Partneriaid:** | CSC, Gwasanaeth Adnoddau Dynol a Thechnoleg Gwybodaeth ynghyd â chyfarwyddiaethau CSC.  Cyrff Cyhoeddus Fforwm Dyfodol Dwyieithog, Cered, Antur Teifi. |

## Nod Strategol 3:

# Sicrhau amodau cymdeithasol sy’n galluogi’r Gymraeg i ffynnu yng Ngheredigion

| Nod Strategol | 3. Sicrhau amodau cymdeithasol sy’n galluogi’r Gymraeg i ffynnu yng Ngheredigion |
|---|---|
| Pam rydym wedi dewis y nod yma: | Cyfrwng cymdeithasol yw iaith ac i iaith ffynnu mae angen i’r gymdeithas y mae’n gyfrwng mynegiant iddi hefyd ffynnu. Mae’n ystrydeb bellach i sôn am dai a gwaith yng nghyswllt iaith. Fodd bynnag, mae’r ddwy agwedd yna’n allweddol i hyfywedd unrhyw gymdeithas gynaliadwy. Ond nid hynny’n unig chwaith. Rhaid wrth fwrlwm ac egni a chreadigrwydd. Rhaid i gymunedau fod yn ddeniadol ac yn lefydd pleserus i fyw ynddyn nhw. Rhaid bod y boblogaeth yn gweld gwerth cymdeithasol ac economaidd i’w hiaith a bod yn barod i’w dathlu.<br><br>Mae’r nod hwn yn cyplysu hanfodion economaidd a chymdeithasol â’r angen i drigolion Ceredigion roi gwerth a bri ar y Gymraeg a chreu’r ewyllys cyhoeddus a fydd yn sicrhau ei pharhad. |

| Maes blaenoriaeth: | 3.1 Cynnal statws a bri’r Gymraeg o fewn y gymdeithas, gan hyrwyddo ei gwerth a’r defnydd ohoni |
|---|---|
| Sut byddwn yn gwneud hyn: | ➢ Cefnogi Gorymdeithiau Dydd Gŵyl Ddewi yn Aberystwyth a Llanbed; ac annog dathliadau tebyg mewn ardaloedd eraill.<br>➢ Cefnogi Eisteddfod Genedlaethol Cymru Ceredigion 2020, drwy sefydlu Grŵp Prosiect i adnabod blaenoriaethau ar gyfer cynllun gweithredu CSC i gefnogi a hwyluso’r trefniadau.<br>➢ Y Cyngor a sefydliadau Dyfodol Dwyieithog i gefnogi a hyrwyddo ymgyrchoedd cyffredinol i’w staff, er mwyn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y Gymraeg a cheisio newid ymddygiad ieithyddol, ee Gŵyl Dewi, Diwrnod Shw Mae, Ras yr Iaith, Diwrnod Cerddoriaeth Cymraeg<br>➢ Amlygu gwerth y Gymraeg yn y diwydiant twristiaeth ee hyrwyddo cynllun Naws am Le.<br>➢ Gwarchod enwau lleoedd Cymraeg lleol drwy weithredu polisi enwi a rhifo strydoedd Ceredigion<br>➢ Annog rhanddeiliaid / trefnwyr digwyddiadau mawr i sicrhau gweledigaeth y Gymraeg mewn unrhyw ddigwyddiad mawr neu ymgyrch gyhoeddus<br>➢ Cefnogi gweithrediad Cynllun Llesiant Ceredigion, gan sicrhau bod ei weithgaredd yn hyrwyddo gwerth a’r defnydd o’r Gymraeg. |
| Sut byddwn yn gwybod ein bod wedi llwyddo: | • Proffil amlwg i ddigwyddiadau yng nghyfryngau cymdeithasol Cyngor Sir Ceredigion a Cered<br>• Cyflawni blaenoriaethau o fewn y cynllun gweithredu i gefnogi a hwyluso Eisteddfod Genedlaethol lwyddiannus 2020<br>• Adolygu adroddiadau 6 Grŵp Prosiect Cynllun Llesiant Ceredigion er mwyn sicrhau buddiannau siaradwyr Cymraeg<br>• Proffil amlwg i’r Gymraeg mewn digwyddiadau mawr ar draws y Sir |
| Partneriaid: | CSC, Cered, Cynghorau Tref lleol, Eisteddfod Genedlaethol, Partneriaid Fforwm Dyfodol Dwyieithog, Gwasanaeth Twristiaeth, Gwasanaeth Rheoli Cyfeiriadau, Comisiynydd y Gymraeg, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus |

| Maes blaenoriaeth: | 3.2 Sicrhau economi ffyniannus sy’n rhoi gwerth ar y Gymraeg ac ar sgiliau Cymraeg y gweithlu |
|---|---|
| Sut byddwn yn gwneud hyn: | ➢ Rhoi gwerth ar sgiliau Cymraeg y gweithlu, drwy weithredu polisi recriwtio sy’n gofyn am asesiad ieithyddol wrth benodi swyddi gwag a newydd.<br>➢ CSC yn ogystal â chyrff eraill, i gynnal a datblygu polisi Caffael, er mwyn rhoi gwerth ar y Gymraeg, gan sicrhau bod gofynion ynghylch y Gymraeg yn cael ei ystyried a’i gynnwys fel sy’n  briodol mewn unrhyw gontract, tendr neu gytundeb cyfreithiol<br>➢ Cefnogi blaenoriaeth gorfforaethol 1, Hybu’r Economi , Strategaeth Gorfforaethol CSC 2017-22 i sicrhau gwelediad amlwg i’r Gymraeg mewn unrhyw gynlluniau.<br>➢ Sicrhau bod gwerth y Gymraeg, ei defnydd a’i chynaliadwyedd yn ffactorau creiddiol o weithgareddau y cynllun Cynnal y Cardi [LEADER]<br>➢ Hyrwyddo gwerth economaidd y Gymraeg mewn gweithgareddau gyrfaol – o fewn ysgolion, gwasanaethau ieuenctid a’r byd gwaith.<br>➢ Sicrhau cyfleoedd i brentisiaid o fewn y  Cyngor ddefnyddio’u sgiliau iaith Gymraeg  wrth eu gwaith<br>➢ Codi ymwybyddiaeth ynghylch cylch gwaith  Cymunedau Digidol Cymru |
| Sut byddwn yn gwybod ein bod wedi llwyddo: | • Nifer y swyddi y Cyngor a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn sy’n gofyn am sgiliau iaith Gymraeg ALTE 1-5.<br>• Nifer o weithgareddau sy’n cael eu cefnogi gan gynllun Cynnal y Cardi, ac sy’n sicrhau gwerth y Gymraeg<br>• Nifer y digwyddiadau gyrfaol sy’n amlygu gwerth y Gymraeg.<br>• Nifer o gyfleoedd prentisiaethau lle mae cyfran o’r gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg/dwyieithog |
| Partneriaid: | Cyfarwyddiaethau a Gwasanaethau CSC, Gwasanaeth Caffael a Chyfreithiol CSC, Comisiynydd y Gymraeg, Cynnal y Cardi, Gyrfa Cymru, Gwasanaeth Addysg, Cered, Partneriaid Fforwm Dyfodol Dwyieithog. |

| Maes blaenoriaeth: | 3.3 Sicrhau cymunedau cynaliadwy lle y defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu arferol. |
|---|---|
| Sut byddwn yn gwneud hyn: | ➢ Hyrwyddo cynaliadwyedd y Gymraeg drwy gyfrwng gweithdrefnau cynllunio defnydd tir, e.e.:<br>o cynnal ac adolygu y Canllawiau Cynllunio Atodol – Y Gymuned a'r Iaith Gymraeg yn rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol; cryfhau'r cymal i godi arwyddion a hysbysiadau dwyieithog<br>o cynnal astudiaethau effaith ieithyddol ynghlwm wrth bob cam o ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol newydd<br>o CSC i gynnal ei bolisi tai fforddiadwy drwy gysylltiad lleol [Polisi S05];<br>➢ Parhau i ddefnyddio'r Cynllun Grant Cymunedol Ceredigion i gefnogi: mudiadau a digwyddiadau cymunedol sy'n gwneud defnydd o'r Gymraeg, neu'n ymrwymo i ddatblygu defnydd o'r Gymraeg<br>➢ Hyrwyddo gwerth y Gymraeg yn y sector fwyd.<br>➢ Cefnogi cynlluniau i gymhathu mewnfudwyr drwy hyrwyddo pecyn Croeso Ceredigion www.symud.cymru<br>➢ Gwasanaeth TG CSC yn ogystal a chyrff eraill i edrych am gyfleoedd cynyddol i gynnwys y Gymraeg mewn technoleg, gan gynnwys systemau TG newydd. Sefydliadau partner Fforwm Dyfodol Dwyieithog i godi ymwybyddiaeth, er mwy cynyddu defnydd o ryngwynebau cyfrwng Cymraeg ee Microsoft, Facebook, apiau. |
| Sut byddwn yn gwybod ein bod wedi llwyddo: | • % o gyfanswm yr ymgeiswyr sydd wedi cymhwyso i brynu tŷ fforddiadwy yn seiliedig ar gysylltiad lleol.<br>• % o bobl priodol sydd mewn tai cymdeithasol trwy gael cysylltiad lleol<br>• Nifer ac ansawdd Asesiad Effaith Ieithyddol wrth ddatblygu Cynllun Datblygu Lleol Newydd<br>• Canllawiau Cynllunio Atodol – Y Gymuned a'r Iaith Gymraeg diwygiedig yn cael ei gyhoeddi yn rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol<br>• Nifer a chyfanswm y grantiau perthnasol a ddosbarthwyd o dan Gynllun Grant Cymunedol Ceredigion<br>• Nifer y mudiadau sydd wedi datblygu eu defnydd o'r Gymraeg ymhellach fel rhan o'r amodau i dderbyn Cynllun Grant Cymunedol Ceredigion o fewn y flwyddyn adrodd |
| Partneriaid: | Gwasanaeth Cynllunio CSC, Gwasanaeth Cyllid CSC, Cered. Partneriaid Fforwm Dyfodol Dwyieithog. |

## 6. Gweithredu

Cynigir yr amcanion strategol uchod fel fframwaith cyffredinol ar gyfer gweithgareddau polisi a chynllunio iaith yn y sir. Mae'r tasgau a'r gweithgareddau uchod yn cael eu cyfyngu gan sgôp dylanwad y Cyngor Sir a'r cyrff sy'n aelodau o Fforwm Dyfodol Dwyieithog ynghyd ag aelodau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion.

Roedd Strategaeth Iaith Ceredigion 2015-18 yn cyfrannu'n uniongyrchol i Gynllun Integredig Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion. Yn dilyn cyhoeddi Cynllun Llesiant Ceredigion, sefydlwyd 6 Grŵp Prosiect er mwyn cyflawni pob un o'r amcanion yn y Cynllun. Fodd bynnag, bydd Grŵp Dyfodol Dwyieithog yn parhau i gefnogi'r BGC, fel un o'r fforymau trawsbynciol, yn gweithredu fel cyfaill beirniadol ar gyfer cynlluniau'r Grwpiau Prosiect y Cynllun Llesiant.

Yn rhan o'r broses o gyhoeddi'r Strategaeth hon, caiff aelodaeth Grŵp Dyfodol Dwyieithog Ceredigion ei hadolygu, ac rydym am sefydlu Fforwm Iaith bartneriaethol Dyfodol Dwyieithog Ceredigion. Hyn, er mwyn sicrhau y bydd y Fforwm yn talu sylw i bob un o'r blaenoriaethau wrth lunio cynllun gwaith treigl yn ystod oes y Strategaeth, gan adnabod tasgau a gweithgareddau y gall yr aelodau weithredu arnyn nhw o fewn sgôp eu dylanwad a'u hadnoddau. Bydd y gwaith o gydlynu'r broses monitro yn cael ei gyflawni gan Swyddog Polisi Iaith a Chydraddoldebau y Cyngor Sir, ond bydd disgwyl i swyddogion y Cyngor a swyddogion o blith sefydliadau'r partneriaid gyfrannu'n rheolaidd ac yn amserol i'r broses. Bydd adroddiadau cynnydd yn cael eu hadrodd at sylw Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Cabinet Cyngor Sir Ceredigion.

**Aelodau blaenorol Grŵp Dyfodol Dwyieithog:**

Cyngor Sir Ceredigion
Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda
Canolfan Byd Gwaith
Canolfan Cymraeg i Oedolion y Canolbarth
CAVO*
Coleg Ceredigion
Cyfoeth Naturiol Cymru
Gwasanaeth Tân ac Achub Gorllewin a Chanolbarth Cymru
Heddlu Dyfed Powys
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Llywodraeth Cymru
Menter a Busnes
Prifysgol Aberystwyth
Prifysgol y Drindod Dewi Sant
Cered (Menter Iaith)
Theatr Felinfach

**Aelodau newydd i'w hychwanegu at yr uchod er mwyn creu Fforwm Iaith Dyfodol Dwyieithog Ceredigion:**

Urdd Gobaith Cymru Ceredigion
Ffermwyr Ifanc Cymru Ceredigion
Mudiad Meithrin
Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion
Gwasanaeth Addysg Ceredigion
Uned Gofal Plant
Gyrfa Cymru

# Atodiad 1: Ystadegau Iaith Lleol

**Tabl 1: Sgiliau Cymraeg Ceredigion fesul ward – niferoedd.**

| | Pawb | Gallu siarad Cymraeg | Siarad, darllen ac ysgrifennu | Deall Cymraeg yn unig | Dim sgiliau Cymraeg |
|---|---|---|---|---|---|
| Aberaeron | 1390 | 832 | 639 | 110 | 423 |
| Aberporth | 2293 | 1018 | 803 | 243 | 978 |
| Aberteifi -Mwldan | 1721 | 1012 | 764 | 210 | 474 |
| Aberteifi-Rhyd-y-Fuwch | 1180 | 658 | 498 | 135 | 354 |
| Aberteifi-Teifi | 1117 | 524 | 387 | 123 | 430 |
| Aberystwyth Bronglais | 2041 | 745 | 669 | 134 | 1094 |
| Aberystwyth Canol | 2447 | 652 | 545 | 123 | 1611 |
| Aberystwyth Gogledd | 2618 | 639 | 504 | 124 | 1804 |
| Aberystwyth Penparcau | 3005 | 1095 | 794 | 453 | 1369 |
| Aberystwyth Rheidol | 2686 | 819 | 663 | 195 | 1599 |
| Beulah | 1591 | 841 | 708 | 129 | 601 |
| Borth | 2026 | 823 | 659 | 181 | 969 |
| Capel Dewi | 1267 | 642 | 548 | 95 | 515 |
| Ceinewydd | 1048 | 435 | 331 | 123 | 462 |
| Ceulanamaesmawr | 1848 | 977 | 815 | 152 | 682 |
| Ciliau Aeron | 1926 | 1040 | 876 | 163 | 707 |
| Faenor | 2505 | 823 | 668 | 185 | 1435 |
| Llanarth | 1549 | 785 | 656 | 130 | 614 |
| Llanbadarn Fawr-Padarn | 1013 | 414 | 319 | 134 | 431 |
| Llanbadarn Fawr-Sulien | 2298 | 549 | 446 | 144 | 1536 |
| Llanbedr Pont Steffan | 2870 | 1346 | 1077 | 181 | 1277 |
| Llandyfriog | 1773 | 970 | 785 | 120 | 656 |
| Llandysiliogogo | 1925 | 977 | 831 | 147 | 758 |
| Llandysul – Tref | 1398 | 888 | 747 | 100 | 391 |
| Llanfarian | 1468 | 792 | 649 | 151 | 475 |
| Llanfihangel Ystrad | 1973 | 1123 | 957 | 116 | 696 |
| Llangeitho | 1416 | 777 | 655 | 101 | 515 |
| Llangybi | 1454 | 713 | 584 | 123 | 593 |
| Llanrhystyd | 1510 | 871 | 728 | 111 | 498 |
| Llansantffraed | 2323 | 1198 | 1004 | 183 | 890 |
| Llanwenog | 1788 | 1058 | 930 | 102 | 602 |
| Lledrod | 2149 | 1166 | 979 | 151 | 804 |
| Melindwr | 1956 | 967 | 814 | 161 | 775 |
| Penbryn | 2003 | 971 | 826 | 147 | 849 |
| Pen-parc | 2262 | 1244 | 983 | 177 | 800 |
| Tirymynach | 1837 | 1006 | 811 | 168 | 611 |
| Trefeurig | 1713 | 967 | 774 | 179 | 530 |
| Tregaron | 1173 | 785 | 661 | 76 | 299 |
| Troedyraur | 1272 | 647 | 558 | 81 | 521 |
| Ystwyth | 2015 | 1175 | 984 | 155 | 658 |

**Tabl 2: Sgiliau Cymraeg Ceredigion fesul ward – canrannau.[14]**

| | Gallu siarad Cymraeg | Siarad, darllen ac ysgrifennu | Deall Cymraeg yn unig | Dim sgiliau Cymraeg |
|---|---|---|---|---|
| Aberaeron | 60% | 46% | 8% | 30% |
| Aberporth | 44% | 35% | 11% | 43% |
| Aberteifi-Mwldan | 59% | 44% | 12% | 28% |
| Aberteifi -Rhyd-y-Fuwch | 56% | 42% | 11% | 30% |
| Aberteifi-Teifi | 47% | 35% | 11% | 38% |
| Aberystwyth Bronglais | 37% | 33% | 7% | 54% |
| Aberystwyth Canol | 27% | 22% | 5% | 66% |
| Aberystwyth Gogledd | 24% | 19% | 5% | 69% |
| Aberystwyth Penparcau | 36% | 26% | 15% | 46% |
| Aberystwyth Rheidol | 30% | 25% | 7% | 60% |
| Beulah | 53% | 45% | 8% | 38% |
| Borth | 41% | 33% | 9% | 48% |
| Capel Dewi | 51% | 43% | 7% | 41% |
| Ceinewydd | 42% | 32% | 12% | 44% |
| Ceulanamaesmawr | 53% | 44% | 8% | 37% |
| Ciliau Aeron | 54% | 45% | 8% | 37% |
| Faenor | 33% | 27% | 7% | 57% |
| Llanarth | 51% | 42% | 8% | 40% |
| Llanbadarn Fawr-Padarn | 41% | 31% | 13% | 43% |
| Llanbadarn Fawr-Sulien | 24% | 19% | 6% | 67% |
| Llanbedr Pont Steffan | 47% | 38% | 6% | 44% |
| Llandyfriog | 55% | 44% | 7% | 37% |
| Llandysilio-gogo | 51% | 43% | 8% | 39% |
| Llandysul - Tref | 64% | 53% | 7% | 28% |
| Llanfarian | 54% | 44% | 10% | 32% |
| Llanfihangel Ystrad | 57% | 49% | 6% | 35% |
| Llangeitho | 55% | 46% | 7% | 36% |
| Llangybi | 49% | 40% | 8% | 41% |
| Llanrhystyd | 58% | 48% | 7% | 33% |
| Llansantffraed | 52% | 43% | 8% | 38% |
| Llanwenog | 59% | 52% | 6% | 34% |
| Lledrod | 54% | 46% | 7% | 37% |
| Melindwr | 49% | 42% | 8% | 40% |
| Penbryn | 48% | 41% | 7% | 42% |
| Pen-parc | 55% | 43% | 8% | 35% |
| Tirymynach | 55% | 44% | 9% | 33% |
| Trefeurig | 56% | 45% | 10% | 31% |
| Tregaron | 67% | 56% | 6% | 25% |
| Troedyraur | 51% | 44% | 6% | 41% |
| Ystwyth | 58% | 49% | 8% | 33% |

[14] Tu allan i dymor coleg mae'r canrannau o siaradwyr Cymraeg ar gyfer rhai wardiau ac ardaloedd yn cynyddu'n arwyddocaol: Faenor – o 33% i 42.5%; Llanbadarn Fawr – o 29% i 38%; Aberystwyth – o 31% i 36%; Llanbedr Pont Steffan – o 47% i 54%. (Statiaith: 2014; Swyddfa Ystadegau Gwladol )